## ATODLEN 3

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

### RHAN 2

### DIWYGIADAU A DIDDYMIADAU SY'N YMWNEUD Â RHAN 4

*Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3)*

17 (1) Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 16 (pŵer i ymchwilio i wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd), yn y diffiniad o "awdurdod rhestredig perthnasol" yn is-adran (4)—

(a) hepgorer paragraff (a);

(b) hepgorer paragraff (e);

(c) ar ôl paragraff (i) mewnosoder—

"(ia) Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru;".

(3) Yn Atodlen 3 (awdurdodau rhestredig), o dan y pennawd "Iechyd a gofal cymdeithasol"—

(a) hepgorer y geiriau "Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.";

(b) hepgorer y geiriau "Cyngor Iechyd Cymuned.";

(c) ar ôl y cofnod olaf mewnosoder—

"Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru."